

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gwasanaethau Ariannol

Cynllun Pensiwn Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru

Canllaw ar gyfer Aelodau

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Y print mân	5
Sut mae eich pensiwn yn cronni.....	6
Cyfraniadau.....	7
Gadael y Cynllun	9
Buddion Ymddeol	11
Ymddeol yn Gynnar	13
Ymddeol oherwydd salwch	14
Marw yn y swydd.....	16
Diogelu Data	23
Datgelu gwybodaeth ac anghydfod	25
Sut y gellir cael gwybod mwy.....	26

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn ar gyfer Aelodau a ymunodd â'r Cynulliad cyn 6 Mai 2016 a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012

Mae gwahanol ganllawiau ar gyfer Aelodau a ymunodd â'r Cynulliad cyn 6 Mai 2016 ac a oedd o dan 55 oed ar 1 Ebrill 2012, ac ar gyfer y rhai a ymunodd â'r Cynulliad ar neu ar ôl 6 Mai 2016.

Gan eich bod yn 55 oed neu'n hŷn ym mis Ebrill 2012, mae eich buddiannau'n amodol ar yr hyn a ddisgrifir yn 'ddiogelwch trosiannol'. Mae hyn yn golygu y byddwch yn parhau i Gronni Buddion ar yr un sail ag yr ydych yn ei wneud nawr am bum mlynedd arall o 6 Mai 2016.

Os ydych yn dal i fod yn aelod gweithredol o'r Cynllun pan ddaw'r pum mlynedd i ben, byddwch yn symud i adran newydd o'r cynllun (CARE) ar y pwynt hwnnw ac yn dechrau cronni buddion ar sail cynllun CARE o hynny ymlaen. **Bydd y buddion Cyflog Terfynol a gronnwyd wedi'u diogelu'n llwyr** ac ni fydd y newidiadau ond yn effeithio ar y buddion sy'n cronni ar ôl Mai 2021.

Mae'r Cynllun yn cael ei reoli gan Fwrdd Pensiynau a elwir yn Ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys dau gynrychiolydd a enwebwyd gan Aelodau presennol a blaenorol y Cynulliad, dau gynrychiolydd a benodir gan Gomisiwn y Cynulliad ac un Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol i weithredu fel Cadeirydd. Mae'r Bwrdd Pensiynau yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn, a bydd Aelodau'n cael cylchlythyr yn achlysurol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am waith y Bwrdd.

Mae budd-daliadau sy'n daladwy i Aelodau o dan reolau'r Cynllun yn cael eu talu o'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Gronfa Bensiwn yn cynnwys cyfraniadau gan Aelodau a Chomisiwn y Cynulliad a'r enillion sy'n deillio o fuddsoddiadau'r Gronfa. Mae'r Gronfa Bensiwn, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, yn cael ei chynnal yn gwbl ar wahân i asedau'r Cynulliad, ac mae'r Ymddiriedolwyr yn gofalu am y Gronfa ar ran y buddiolwyr.

Bob tair blynedd, bydd Actwari'r Llywodraeth yn asesu sefyllfa ariannol y Gronfa. Mae'r drefn hon yn galluogi'r Ymddiriedolwyr i asesu iechyd ariannol y Cynllun.

Y print mân

Dyma eich canllaw i'r ystod werthfawr o fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt fel aelod o'r Cynllun. Nid yw'n ymdrin â phob agwedd ar y Cynllun.

Mae manylion llawn y Cynllun wedi'u nodi yn Rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y llyfryn hwn a'r rheolau, y rheolau a fydd yn trechu.

Sut mae eich pensiwn yn cronni:

Seilir eich pensiwn ar hyd eich gwasanaeth yn y Cynllun, eich Cyflog Terfynol ac a ydych wedi dewis cronni buddion ar gyfradd o un rhan o ddeugain o'ch cyflog am bob blwyddyn o wasanaeth neu un rhan o bumdeg o'ch cyflog ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth.

Felly, er enghraifft, os oeddech yn aelod o'r Cynllun am ddeng mlynedd, eich cyflog terfynol pan adawoch oedd £64,000 ac roeddech wedi dewis cronni buddion ar gyfradd o un rhan o ddeugain o'ch cyflog am bob blwyddyn o wasanaeth, byddai eich pensiwn yn ymddangos fel a ganlyn:

$$\frac{\pounds 64,000 \times 10}{40} = \pounds 16,000 \text{ y flwyddyn}$$

Os ydych yn Ddeiliad Swydd, byddwch yn cael pensiwn ychwanegol yn seiliedig ar eich cyflog fel Deiliaid Swydd.

Cyfraniadau

Caiff y gost o ddarparu buddion o'r Cynllun ei rhannu rhwng y Comisiwn ac aelodau'r Cynllun.

Fel aelod o'r Cynllun, mae'n ofynnol i chi dalu cyfraniad o'ch cyflog; mae'r Cynulliad yn gwneud cyfraniad "Cyflogwr". Caiff cyfraddau'r cyfraniadau hyn eu hadolygu o bryd i'w gilydd, fel arfer yn dilyn yr adolygiad o'r Gronfa a gynhelir bob tair blynedd gan Actiwari'r Llywodraeth.

Cyfradd bresennol y cyfraniad gan Aelod yw 10 y cant o gyflog pensiynadwy ar gyfer cyfradd Gronni o un rhan o ddeugain neu 6 y cant ar gyfer cyfradd Gronni o un rhan o bumdeg.

Mae cyfraniadau i'r Cynllun ar hyn o bryd yn destun gostyngiad treth llawn yn ôl eich cyfradd uchaf o'r dreth incwm hyd at 75 oed. Byddwch yn cael y gostyngiad treth hwn yn eich cyflog yn awtomatig.

Os ydych yn Ddeiliad Swydd, byddwch yn talu cyfraniadau ar eich cyflog fel Aelod Cynulliad a'ch cyflog fel Deiliad Swydd.

Enghraifft o Gyfraniadau gan Aelodau

Mae Aelod yn ennill cyflog ar gyfradd o £64,000 y flwyddyn.

Cyfraniadau Cynllun Pensiwn yn ôl cyfradd o 10 y cant =
£6,400 (a)

Gostyngiad treth incwm (rhagdybir i fod yn 40c yn y £) =
£ 2,560 (b)

Cyfraniad Net (gwir gost i chi) (a) – (b) = £3,840

Deiliaid Swyddi

Bydd manylion y trefniadau hyn yn cael eu hanfon at Ddeiliaid Swyddi ar ôl dechrau yn eu swyddi am y tro cyntaf. Mae'r cyfraniadau hyn hefyd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 10 y cant o'r cyflog (neu 6 y cant o'r cyflog) ac mae cyfraniad "Cyflogwr" yn cael ei wneud yn yr un modd.

Caiff buddion eu cyfrifo drwy fformiwla gymhleth sy'n cyfrifo pensiwn yn seiliedig ar un rhan o ddeugain (neu un rhan o bumdeg) o gyflog Deiliad Swydd.

Gadael y Cynllun

Os byddwch yn gadael y Cynllun cyn ymddeol, mae dau opsiwn yn agored i chi:

Opsiwn 1:

Gallwch adael y pensiwn yr ydych wedi'i gronni yn y Cynllun. Gelwir hyn yn bensiwn gohiriedig. Bydd yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar hyn o bryd) hyd nes y byddwch yn penderfynu cael arian ohono.

Mae pensiwn gohiriedig yn daladwy heb ei leihau o Oedran Ymddeol Arferol y Cynllun ymlaen. Fodd bynnag, gellir ei dalu'n gynnar o 55 oed (50 os wnaethoch ymuno â'r Cynllun cyn 6 Ebrill 2006) ac yna bydd yn ddarostyngedig i ostyngiad am dalu'n gynnar. Gellir talu eich pensiwn yn gynt os ydych yn dioddef o afiechyd.

Os ydych yn marw cyn cael y pensiwn, bydd y buddion a ddisgrifir ar dudalen 20 yn daladwy.

Gadael y Cynllun

Opsiwn 2:

Gallwch drosglwyddo gwerth eich pensiwn i gynllun pensiwn cymeradwy arall. Caiff 'gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian' eich pensiwn ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau a ddarperir gan actiwari'r Cynllun.

Efallai y bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi cael cyngor ariannol annibynnol cyn dewis yr opsiwn hwn.

Buddion Ymddeol

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn cael pensiwn blynyddol. Uchafswm y pensiwn sydd ar gael pan ydych yn cyrraedd yr Oedran Ymddeol Arferol yw dwy ran o dair eich Cyflog Terfynol.

Yn dibynnu ar werth eich cynilion pensiwn, efallai y bydd y Lwfans Gydol Oes yn effeithio arnoch pan fyddwch yn ymddeol. Dyma gyfyngiad y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ei osod ar y buddion pensiwn a'r buddion cyfandaliad y gallwch eu cronni ar draws eich holl gynilion pensiwn cyn y bydd treth yn daladwy. Y terfyn yw £1 miliwn o Ebrill 2016. Mae hyn yn gyfwerth â phensiwn blynyddol o £50,000 y flwyddyn o gynllun pensiwn sydd â buddiannau diffiniedig. Disgwylir i'r Lwfans Gydol Oes gynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 2018–19 ymlaen.

Cewch wybod cyn ymddeol os yw hyn yn berthnasol yn eich achos chi, er y bydd hefyd yn dibynnu ar unrhyw fuddion pensiwn eraill yr ydych wedi'u cronni cyn ymuno â'r Cynllun hwn.

Cyfnewid am gyfandaliad

Ar hyn o bryd, gallwch ddewis cyfnewid rhan o'r pensiwn am gyfandaliad di-dreth a chael llai o bensiwn. Er mwyn dewis yr opsiwn hwn, mae'n rhaid ichi roi rhybudd ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr cyn i randaliad cyntaf eich pensiwn gael ei dalu.

Mae uchafswm y cyfandaliad a ganiateir yn cyfateb i oddeutu 25 y cant o werth cyfalaf eich hawl pensiwn blynyddol. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyfyngu ar faint o arian di-dreth y gellir ei gymryd.

Bydd gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu ichi pan ydych yn ymddeol, ond cysylltwch â'r Tîm Pensiynau os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ar hyn o bryd.

Oedran Ymddeol Arferol

Yr Oedran Ymddeol Arferol yw 65 oed. Dyma'r oedran y gallwch gymryd eich holl bensiwn heb ostyngiad ar gyfer taliad cynnar.

Ymddeol yn Gynnar

Gallwch wneud cais i'r Ymddiriedolwyr er mwyn i'ch pensiwn gael ei dalu'n gynnar ar yr amod:

- eich bod wedi cyrraedd Isafswm yr Oedran Pensiwn Arferol, sef 55 oed ar hyn o bryd (50 os y gwnaethoch ymuno â'r Cynllun cyn 6 Ebrill 2006),
- nad ydych bellach yn gwasanaethu fel Aelod Cynulliad

Os byddwch yn cymryd eich pensiwn yn gynnar, bydd wedi'i ostwng ar gyfer taliad cynnar oherwydd bydd yn cael ei dalu dros gyfnod hwy o amser.

Bydd maint y gostyngiad yn dibynnu ar yr oedran y byddwch yn cymryd eich pensiwn a'ch Oedran Ymddeol Arferol. Po gynharaf y byddwch yn cymryd eich pensiwn po fwyaf y gostyngiad am dalu'n gynnar.

O dan y Cynllun newydd, dim ond gwasanaeth hyd at 5 Mai 2016 fydd yn gymwys fel gwasanaeth ar gyfer y darpariaethau ymddeol yn gynnar o dan "Reol 80". Felly, gall Aelodau sydd â 15 mlynedd o wasanaeth o leiaf ar 6 Mai 2016, sy'n dewis cael eu pensiwn wedi'i dalu'n gynnar, gael eu pensiwn Cyflog Terfynol wedi'i leihau yn

seiliedig ar eu gwasanaeth cymwys hyd at 6 Mai 2016 a'u hoedran pan maent yn cymryd eu pensiwn.

Ar gyfer pob Aelod arall, bydd y gostyngiad ar gyfer taliad cynnar yn berthnasol o ran y pensiwn Cyflog Terfynol a'r pensiwn CARE yn seiliedig ar oedran yr unigolyn pan fydd yn cymryd y pensiwn a'r Oed Ymddeol Arferol yn y ddau gynllun.

Ymddeol oherwydd salwch

Er mwyn cael buddion ymddeol ar sail afiechyd, bydd yn rhaid i chi brofi i'r Ymddiriedolwyr eich bod wedi'ch rhwystro rhag ymgymryd â'ch dyletswyddau'n ddigonol fel Aelod Cynulliad oherwydd afiechyd. Os yw'r Ymddiriedolwyr yn derbyn hynny, yn dilyn cyngor meddygol, byddwch yn cael pensiwn ar unwaith yn seiliedig ar bensiwn afiechyd haen 1 neu haen 2.

Mae pensiwn haen 1 yn daladwy os yw'r dystiolaeth feddygol yn dangos nad yw unigolyn wedi'i rwystro rhag ymgymryd â gwaith cyflogedig arall ond na all, a hynny ar sail barhaol, ymgymryd yn ddigonol â dyletswyddau Aelod Cynulliad. Y pensiwn afiechyd haen 1 sy'n daladwy

yw'r buddion y byddwch wedi'u cronni pan fyddwch yn ymddeol heb unrhyw ostyngiad oherwydd eich bod yn cael eich buddion yn gynnar.

Mae pensiwn haen 2 yn daladwy os yw'r dystiolaeth feddygol yn dangos bod unigolyn wedi'i rwystro rhag ymgymryd â gwaith cyflogedig arall ac na all, a hynny ar sail barhaol, ymgymryd yn ddigonol â dyletswyddau Aelod Cynulliad.

Y pensiwn afiechyd haen 2 sy'n daladwy yw'r buddion y byddwch wedi'u cronni pan fyddwch yn ymddeol gydag ychwanegiad fel petaech wedi aros yn aelod gweithredol o'r Cynllun hyd nes yr Oedran Ymddeol Arferol (yn amodol ar uchafswm o ddwy ran o dair).

Gall cyn Aelod o'r cynllun, sydd â phensiwn gohiriedig ac sy'n ymddeol o waith cyflogedig oherwydd afiechyd, wneud cais i'r Ymddiriedolwyr i'r pensiwn gohiriedig gael ei dalu ar unwaith ynghyd ag unrhyw gynnydd sydd wedi cronni. Ni fydd unrhyw ychwanegiad ar sail gwasanaeth i hawl pensiwn y cyn Aelod, a bydd y pensiwn yn lleihau er mwyn ei dalu'n gynnar.

Marw yn y swydd

Cyfundaliad

Os byddwch yn marw yn y swydd fel aelod cyfranogol cyn cyrraedd 75 oed, gall yr Ymddiriedolwyr dalu arian rhodd ar ffurf cyfundaliad sy'n cyfateb i ddwywaith eich cyflog (gan gynnwys eich cyflog fel Deiliad Swydd os oeddech yn Ddeiliad Swydd ar adeg eich marwolaeth), neu ad-daliad o'ch cyfraniadau gyda llog os yw'n uwch, i'ch buddiolwr neu fuddiolwyr a enwebwyd.

Gallwch enwebu unigolyn, unigolion, sefydliad neu ymddiriedolaeth. Os nad oes enwebiad dilys yn bodoli, bydd yr arian rhodd marwolaeth yn rhan o'ch ystâd bersonol. ***Sylwer y bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried eich enwebiad ond nid oes yn rhaid iddynt gadw ato o dan y gyfraith.*** Mae ffurflen enwebu wedi'i chynnwys yn eich pecyn croeso, neu gellir ei llwytho o **dudalen Pensiwn yr Aelodau** ar y fewnrwyd neu mae copïau hefyd ar gael gan y Tîm Pensiynau. Mae'n bwysig eich bod yn adolygu'ch enwebiad yn rheolaidd ac yn ei ddiweddarau os bydd eich amgylchiadau personol yn newid.

Pensiynau Dibynyddion

Os byddwch yn marw yn y swydd fel aelod cyfranogol ac mae gennych Briod, Partner Sifil neu Bartner sy'n fyw (boed o'r un rhyw neu'r rhyw arall), bydd Pensiwn Dibynydd i Oedolyn sy'n Fyw yn daladwy.

Mae 'Partner' yn golygu person o'r naill ryw:

- a oedd yn cyd-fyw â chi ar ddyddiad eich marwolaeth ac a oedd wedi cyd-fyw â chi am o leiaf deuddeg mis,
- a enwebwyd gennych chi yn ysgrifenedig o leiaf chwe mis cyn eich marwolaeth fel y person yr oeddech yn dymuno i bensiwn Partner fod yn daladwy iddynt, ac
- a oedd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, naill ai'n ddibynnol arnoch yn ariannol neu'n rhyngddibynnol â chi am o leiaf ddeuddeg mis.

Mae ffurflen i nodi pwy yr ydych am ei enwebu i gael y budd hwn wedi'i gynnwys yn eich pecyn croeso neu gellir ei lwytho o **dudalen pensiwn yr Aelodau** ar y fewnrwyd.

Ar gyfer y tri mis cyntaf ar ôl marwolaeth, bydd cyfanswm Pensiwn Dibynydd i Oedolyn sy'n Fyw ac unrhyw Bensiynau Plant sy'n daladwy yn gyfwerth â chyflog yr Aelod Cynulliad o dan sylw. Ar ôl diwedd y cyfnod hwn o dri mis, bydd Pensiwn Dibynydd i Oedolyn sy'n Fyw yn bum rhan o wyth o'ch pensiwn, gydag ychwanegiad fel petaech wedi aros yn aelod gweithredol o'r Cynllun tan eich Oedran Ymddeol Arferol (yn amodol ar yr uchafswm o ddwy ran o dair).

Mae Pensiwn Plant hefyd yn daladwy er budd unrhyw Blentyn Perthnasol sydd o dan 17 oed, neu sydd o dan 23 oed ac mewn addysg amser llawn neu'n cael hyfforddiant amser llawn.

Bydd pensiwn y Plentyn yn gyfwerth â:

- swm sy'n cyfateb i un chwarter eich pensiwn (gydag ychwanegiad fel y disgrifir uchod) lle bo un Plentyn Perthnasol, neu,
- os oes mwy nag un Plentyn Perthnasol, swm sy'n cyfateb i dair rhan o un deg chwech o'ch pensiwn (gydag ychwanegiad fel y disgrifir uchod) ar gyfer pob plentyn hyd at uchafswm o ddau.

Gall pensiynau plant gael eu cynyddu os nad oes Oedolyn Dibynnol sy'n Fyw.

Marwolaeth ar ôl ymddeol

Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Pensiwn Dibynnydd i Oedolyn sy'n Fyw yn daladwy ar yr un gyfradd â'r pensiwn a oedd yn daladwy i chi yn union cyn eich marwolaeth am y tri mis cyntaf. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr.

Bydd y cyfnod hwn yn cael ei ddilyn gan Bensiwn Dibynnydd i Oedolyn sy'n Fyw gyfwerth â phum rhan o wyth o'ch pensiwn ar ddyddiad eich marwolaeth (yn seiliedig ar eich pensiwn llawn cyn i unrhyw swm y gwnaethoch ei gyfnewid am gyfandaliad di-dreth, gan anwybyddu unrhyw ostyngiad am dalu'n gynnar).

Hefyd, os byddwch yn marw o fewn pum mlynedd o fod â'r hawl i gael pensiwn ac roeddech o dan 75 oed ar ddyddiad eich marwolaeth, bydd cyfanswm Pensiwn yr Oedolyn Dibynnol am weddill y cyfnod o bum mlynedd yn gyfwerth â'r taliadau pensiwn y byddech wedi'u cael pe baech wedi byw.

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr bod eich enwebiadau yn rhai cyfredol er mwyn sicrhau bod eich buddion yn cael eu talu cyn gynted ag y bo modd.

Marwolaeth ar ôl gohirio

Yn yr amgylchiadau hyn, bydd eich Priod/Partner Sifil/Partner yn cael pensiwn cyfwerth â phum rhan o wyth o'r pensiwn y byddech wedi bod â hawl i'w gael pe bai wedi dechrau cael ei dalu yn syth cyn eich marwolaeth.

Bydd Pensiynau i Oedolion Dibynnol a Phlant hefyd yn daladwy mewn perthynas â'ch buddion Cyflog Terfynol.

Trefniadau optio allan ar gyfer Aelodau'r Cynulliad/Deiliaid Swyddi

Gallwch optio allan o'r Cynllun ar unrhyw adeg.

Fel Aelod/Deiliad Swydd newydd, mae gennych **dri mis** o ddyddiad eich ethol i'r Cynulliad i ddewis a ydych am gael ad-daliad o'ch cyfraniadau. Bydd yr ad-daliad yn cael ei ôl-ddyddio i ddyddiad yr etholiad. Rhaid rhoi rhybudd i'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig eich bod yn dymuno optio allan.

Os ydych yn penderfynu gadael y Cynllun ar unrhyw ddyddiad arall yn y dyfodol, bydd eich penderfyniad yn dod i rym o ba bynnag ddyddiad y mae'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu yw'r dyddiad ymarferol cynharaf ar ôl iddynt gael eich rhybudd ysgrifenedig.

Cyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad/Deiliaid Swyddi ailymuno yn ddiweddarach

Fel Aelod Cynulliad sydd wedi dewis optio allan, gallwch wneud cais i ail-ymuno â'r Cynllun os ydych yn cael eich ail-ethol mewn etholiad. Rhaid rhoi rhybudd i'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifenedig eich bod yn dymuno optio i mewn eto **o fewn tri mis** i'r etholiad. Y dyddiad y byddwch yn optio i mewn bydd dyddiad yr etholiad.

Gwybodaeth ychwanegol

Y Lwfans Blynyddol

Y Lwfans Blynyddol yw'r swm mwyaf y gall eich pensiwn gynyddu mewn blwyddyn dreth heb fod treth yn daladwy arno. Caiff y Lwfans Blynyddol ei bennu bob blwyddyn gan y Llywodraeth. Os yw gwerth eich holl gynilion pensiwn yn cynyddu'n fwy na'r Lwfans Blynyddol, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi dalu treth.

Mae Lwfans Blynyddol sy'n lleihau'n raddol wedi cael ei gyflwyno ar gyfer rhai sydd ag 'incwm wedi'i addasu' o dros £150,000. O dan y drefn hon, bydd y Lwfans Blynyddol yn lleihau ar raddfa symudol i lefel mor isel â £10,000 ar gyfer y rhai sydd ag 'incwm wedi'i addasu' o dros £210,000. Mae'n bosibl y bydd y Lwfans Blynyddol newydd yn effeithio ar unrhyw un sydd ag incwm trethadwy o dros £110,000.

Diogelu Data

Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwr gadw a phrosesu data yn ymwneud â chi at ddibenion cyfreithiol a gweinyddol ac o ran personél a rheoli. Gall hyn gynnwys prosesu unrhyw ddata personol sensitif (fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Data 1998) ynghylch eich aelodaeth o'r Cynllun, gan gynnwys, fel y bo'n briodol, gwybodaeth am eich iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol ac er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rhwymedigaethau i drydydd parti.

Fe allai'r ymddiriedolwyr sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael i drydydd parti sy'n darparu cynhyrchion neu wasanaethau i'r ymddiriedolwyr (e.e. cynghorwyr meddygol, cynghorwyr proffesiynol eraill a gweinyddwyr cyflogres), awdurdodau rheoleiddio, ac yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn gweinyddu'r Cynllun a sefydlu yswiriant priodol. Gall hyn gynnwys trosglwyddo gwybodaeth o'r fath i unrhyw drydydd parti y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd er mwyn hyrwyddo rhwymedigaethau'r Ymddiriedolwyr o ran y Cynllun. Cymerir camau priodol i ddiogelu eich data personol.

Neilltuadau

Nid oes hawl gennych i neilltuo unrhyw un o'ch buddion. Golyga hyn nad ydych yn gallu rhoi'r hawl i unrhyw un arall gael eich buddion o'r Cynllun

Pensiwn y Wladwriaeth

Yn ychwanegol at y pensiwn a gewch o'r Cynllun, byddwch hefyd yn cael Pensiwn y Wladwriaeth. Ers 6 Ebrill 2016, mae Pensiwn y Wladwriaeth newydd ar gyfer pobl a gyrhaeddodd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar y dyddiad hwn neu ar ei ôl. Os gwnaethoch gyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth a oedd ar gael cyn hynny.

Bydd y pensiwn a gewch gan y Wladwriaeth yn cael ei dalu yn ychwanegol at unrhyw bensiwn a gewch gan Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

Mae rhagor o wybodaeth am fuddion y Wladwriaeth, gan gynnwys sut i gael rhagolwg o'ch Pensiwn posibl, ar gael yn www.gov.uk/state-pension-statement.

Datgelu gwybodaeth ac anghydfod

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y modd y mae'r Cynllun yn cael ei weinyddu, yn gyntaf dylech godi'r mater gyda'r Tîm Pensiynau a fydd yn cysylltu â Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr.

Os oes mater yn codi ynghylch y Cynllun nad ydych wedi llwyddo ei ddatrys yn anffurfiol, dylech ddilyn y Drefn Datrys Anghydfod Fewnol, a fydd ar gael i chi ar gais gan y Tîm Pensiynau.

Os ydych wedi methu â datrys anghydfod o dan y Drefn Datrys Anghydfod Fewnol, efallai y byddwch yn dymuno codi'r mater gyda'r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau sydd ar gael i gynorthwyo aelodau a buddiolwyr y Cynllun ynghylch unrhyw anawsterau na ellir eu datrys yn fewnol.

Cyfeiriad y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau yw 11 Belgrave Road, Llundain SW1V 1RB (Ffôn: 0300 123 1047).

Os yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys, gellir ei gyfeirio at yr Ombwdsmon Pensiynau, sy'n gallu ymchwilio i unrhyw gŵyn o ran ffaith neu gyfraith ynghylch cynllun pensiwn galwedigaethol a gwneud penderfyniad arni.

Cyfeiriad yr Ombwdsmon Pensiynau yw 11 Belgrave Road, Llundain SW1V 1RB (Ffôn: 020 7630 2200).

Y Rheoleiddiwr Pensiynau

Gall y Rheoleiddiwr Pensiynau ymyrryd yn y broses o redeg cynlluniau pensiwn, mewn achos lle mae ymddiriedolwyr, cyflogwyr neu gynghorwyr proffesiynol wedi methu yn eu dyletswyddau.

Gellir cysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn:

Napier House, Trafalgar Place, Brighton BN1 4DW (0345 600 7060)

Sut y gellir cael gwybod mwy?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni:

Liz Calder, Liz.Calder@cynulliad.cymru 0300 200 6528

Donna Davies, donna.davies@cynulliad.cymru 0300 200 6523.

Fel arall, ewch i'r **dudalen Pensiynau'r Aelodau** ar y fewnwyd.